Es I Ddim I Ganada

Es i ddim i Ganada
Ym mil naw saith deg tri
Er dyna oedd fy mwriad
Cyn i mi gwrdd â thi
Fe glywais leisiau eraill
Yn galw fi o'r tir
Sy'n gorwedd ar y gorwel
Tu draw i'r dyfroedd clir

Es i grwydro Erin
Yn dy gwmni di
Ger dyfroedd du Loch Gowna
A choedwig Killykeen
Dros diroedd uchel Galty
I'r corsydd brwyn a'r mawn
I ganfod hanes Mícheál
A chenedl go iawn.

Ar aelwyd gynnes Sean
Ces hanes yr amser du
Am 'ynnau wedi'u cuddio
A dieithried yn y tŷ
Teuluoedd wedi dioddef
Sŵn loriau yn y nos
A sŵn esgidiau trymion
Yn rhedeg ar y clos

Fe ges fy swyno yno
Gan y pibydd wrth y bar
Ces fy nychryn hefyd
Gan y garreg ger y cwar
Ond dyma'r unig le'n y byd
Dwy'n teimlo mod i'n rhydd
I alw'n hun yn aelod
O genedl gwbwl rhydd.

Gwlad hen aur, gwlad y gair
Gwlad y bythol wyrdd
Gwlad y rhydd, gwlad'r hen ffydd
Gwlad breuddwydion byw.

© Geraint Griffiths 2005